**CYNLLUN PENSIWN AC YSWIRIANT**
PRIFYSGOL BANGOR **CPYPB**

# RHEOLIADAU CYFFREDINOL AR WARCHOD DATA
# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD I AELODAU



Mae rholiadau gwarchod data yn eithriadol bwysig i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel a'i defnyddio i'r dibenion cywir yn unig.  Mae'r Ymddiriedolwyr, Prifysgol Bangor a'n cynghorwyr yn rhwym i'r ddeddfwriaeth gyfredol, sef y Ddeddf Diogelu Data 2018, a RhDDC (GDPR) y DU (Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol).

Mae'r DU wedi cadw GDPR yr UE ar ôl gadael yr UE. Newidiodd GDPR y gyfraith o 25 Mai 2018 i dynhau amddiffyn data personol. Nid i gynlluniau pensiwn yn unig mae hyn yn berthnasol; bydd angen i bob cwmni a sefydliad yn Ewrop sydd â mynediad at ddata personol gydymffurfio â'r gyfraith.

Dan y cyfreithiau newydd un o'r pethau y mae'n rhaid i ni ei wneud yw ysgrifennu'n ffurfiol at holl aelodau'r Cynllun i egluro sut y defnyddir eich data personol, pwy fydd yn cael mynd ato a pha hawliau newydd fydd gennych.

**Nid yw data aelodau cynllun pensiwn y mae ein cynghorwyr yn ei ddal ar ein rhan byth yn cael ei werthu i sefydliadau eraill ac ni chaiff ei ddefnyddio byth i alluogi sefydliadau i werthu eu cynnyrch neu wasanaethau i chi.**

## Pam mae'r Ymddiriedolwyr yn ysgrifennu ataf?

Dan y rheoliadau mae'r bwrdd ymddiriedolwyr yn 'Rheolwyr Data'.  Mae hynny'n golygu ein bod ni'n penderfynu sut a pham y defnyddir eich data ac felly mae angen i'r Ymddiriedolwyr ysgrifennu atoch.  Fel Rheolwyr Data, mae'r Ymddiriedolwyr yn casglu a phrosesu eich data personol er mwyn gweinyddu eich buddion pensiwn a gwneud gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hynny.  Yn benodol, byddwn yn defnyddio eich data i wneud y canlynol:

- **cyfrifo eich buddion, a all gynnwys cyfrifiadau ar-lein y gofynnwch amdanynt;**
- **nodi pa fuddion sy'n daladwy i chi, neu a all fod yn daladwy, neu nodi a oes gennych unrhyw fuddiolwyr pe baech yn marw;**
- **delio ag unrhyw ymholiadau neu anghydfodau a all fod gennych yn ymwneud â'ch buddion;**
- **cyfathrebu â chi drwy ddulliau electronig, yn cynnwys ar-lein, drwy'r post neu drwy ddulliau eraill i roi gwybodaeth ddiweddaraf i chi ar faterion yn ymwneud â'r Cynllun; a**
- **rhoi gwybodaeth i chi am eich buddion a'r opsiynau sydd ar gael i chi.**

## Pam ydym ni'n defnyddio eich data personol?

Pryd bynnag rydym yn prosesu eich data personol rydym yn gwneud hynny ar sail cyfiawnhad cyfreithlon.   Byddwn yn defnyddio eich data'n unig pan mae hynny'n angenrheidiol i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol fel Ymddiriedolwyr (megis i dalu eich buddion pan maent yn dod yn ddyledus), os yw'n angenrheidiol i warchod eich buddiannau (megis pan mae angen i ni roi gwybod i chi am opsiynau buddion), neu os yw er diddordeb cyfreithlon yr Ymddiriedolwyr i ddefnyddio eich data yn y ffordd honno ac na fyddwn, wrth wneud hynny, yn torri eich hawliau (fel yn unrhyw un o'r amgylchiadau a restrwyd uchod).

Dim ond gyda'ch caniatâd y gwnawn brosesu data sensitif, megis gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd.   Mae hawl gennych i dynnu'r caniatâd hwnnw'n ôl unrhyw bryd, ond sylwer y gall methu â rhoi caniatâd, neu dynnu eich caniatâd yn ôl, effeithio ar ein gallu i asesu eich hawl i rai buddion.  Er enghraifft, heb fynediad at eich gwybodaeth feddygol, ni all yr Ymddiriedolwyr brosesu cais am ymddeol yn gynnar oherwydd salwch.  Os byddwch yn tynnu eich caniatâd yn ôl, yna ni fydd hynny'n effeithio ar y sail gyfreithiol y proseswyd y data arni cyn i ganiatâd gael ei dynnu'n ôl.

## Beth yw data personol?

Data personol yw gwybodaeth y gellid ei defnyddio i'ch adnabod fel unigolyn.   Mae'r data personol sydd gennym yn cynnwys eich enw, Rhif Yswiriant Gwladol, dyddiad geni, rhyw, statws priodasol, hyd cyflogaeth, manylion cyflog, cyfeiriad cartref a manylion banc. Fe allwn fod â gwybodaeth hefyd am eich priod neu bartner sifil, dibynyddion neu fuddiolwyr eraill posib, ac fe allwn fod â gwybodaeth bersonol sensitif amdanoch e.e. gwybodaeth iechyd, aelodaeth o undebau llafur, hil, crefydd neu dueddfryd rhywiol.

## Pwy sy'n gallu mynd at fy nata a pham?

Mae gan y gweinyddwr, XPS, sy'n edrych ar ôl eich cofnodion fel aelod a chyfrifo eich buddion, gofnodion cyflawn ar holl aelodau'r Cynllun.   Mae ar Actiwari'r Cynllun angen mynediad at beth o'r data hwnnw er mwyn asesu pa mor dda mae'r Cynllun wedi'i gyllido, ac weithiau er mwyn cynorthwyo i gyfrifo buddion.   O bryd i'w gilydd, bydd ar sefydliadau eraill hefyd angen mynediad at eich data.   Er enghraifft, bydd Archwiliwr y Cynllun yn gweld data personol cyfyngedig er mwyn sicrhau bod cyllid y Cynllun mewn trefn a bod y buddion cywir yn cael eu talu.   Efallai y bydd angen ymgynghori â chynghorwr cyfreithiol y Cynllun ar achosion unigol.  Os ydych yn bensiynwr mae'n rhaid i ni ddarparu gwybodaeth i HMRC fel eu bod yn gwybod pa dreth sydd wedi ei thynnu o'ch pensiwn.

Mae Prifysgol Bangor yn cadw eich data hefyd i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau cyfreithiol fel y cyflogwr sy'n noddi'r Cynllun.  Mae ganddi hithau hefyd ddiddordeb cyfreithlon i'r Cynllun gael ei gynnal mewn ffordd cost effeithiol a gall fod â diddordeb mewn cynnig rhai opsiynau i aelodau.

Bydd rhaid i'r holl sefydliadau sydd angen mynediad at eich data personol gydymffurfio â'r rheoliadau newydd.  Mae rhestr lawn o'r sefydliadau rydym yn rhannu eich data â hwy ar gael drwy wneud cais i'r cyfeiriad a welir ar ddiwedd yr hysbysiad hwn.  Lle mae'r sefydliadau hyn yn rheolwyr data, mae copi o'u Hysbysiad Preifatrwydd ar gael i chi o wneud cais amdano.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ymrwymo i sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel.   Rydym wedi sefydlu mesurau technegol a chytundebol priodol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n unig am y rhesymau, a thrwy'r dulliau, a nodir yn yr hysbysiad hwn.

Lle mae gennym wybodaeth yn ymwneud â buddiolwyr arfaethedig, a all fod yn gymwys i dderbyn buddion ar farwolaeth aelod, byddwn yn rhoi gwybod i'r unigolyn am eu hawliau gwarchod data hwy pe bai budd yn dod yn daladwy iddynt o'r Cynllun.

## Prosesu eich gwybodaeth y tu allan i'r DU

Nid yw'r Ymddiriedolwyr fel rheol yn trosglwyddo neu brosesu'r data personol y maent yn ei chasglu amdanoch y tu allan i'r DU. Fodd bynnag, os caiff unrhyw wybodaeth amdanoch ei throsglwyddo y tu allan i'r DU (er enghraifft, os oes gan unrhyw rai o'n cynghorwyr neu ddarparwyr gwasanaeth systemau TG mewn awdurdodaethau eraill) rydym yn sicrhau bod yna gamau priodol wedi'u sefydlu i sicrhau diogelwch data personol.

## Beth fyddwch yn ei wneud gyda'm data personol ac am faint fyddwch yn ei gadw?

Y rheswm pam ein bod yn cadw cofnodion aelodau unigol (sy'n cynnwys data personol) yw i sicrhau bod y buddion pensiwn cywir yn cael eu cyfrifo pan fydd aelodau'n ymddeol ac y bydd aelodau'n parhau i dderbyn y pensiwn cywir ar ôl iddynt ymddeol. Bydd ar gynghorwyr yr Ymddiriedolwyr angen mynediad at y wybodaeth honno i sicrhau bod pawb yn derbyn y pensiwn cywir ac y bydd dibynyddion hefyd yn derbyn y buddion cywir pe bai aelod yn marw.

Felly mae'n bwysig iawn eich bod yn sicrhau bod y data personol a gadwir gennym yn gywir ac yn gyfoes. Dylech roi gwybod i ni os oes unrhyw beth yn newid, er enghraifft os ydych chi'n penderfynu symud cartref neu newid eich rhif ffon neu gyfeiriad e-bost.

Byddwn o bosib angen cadw data personol am flynyddoedd lawer, mae'n debyg tan y bydd pensiwn unrhyw ddibynnydd yn dod i ben (ymhell ar ôl eich marwolaeth chi). Yn ymarferol, mae achosion yn codi'n aml pan mae'n angenrheidiol adolygu gwybodaeth yn ymwneud ag aelod hanesyddol. Un o'r enghreifftiau mwyaf diweddar o hyn yw penderfyniad yr HMRC i roi'r gorau i'r arfer o gontractio allan o'r Cynllun Pensiwn Gwladol. Yn yr achos hwn, mae gweinyddwyr y Cynllun yn edrych yn ôl ar gofnodion a gadwyd hyd at 40 mlynedd yn ôl er mwyn sicrhau bod cofnod contractio allan pob aelod yn gywir ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd gan yr HMRC.

## Sut mae XPS yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae Emma Firth FIA, Actiwari presennol Cynllun XPS, ac XPS Pensions Group yn Rheolwyr Data yn yr un modd ag ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn, wrth iddynt ddarparu gwasanaethau ymgynghori actiwaraidd ar fuddion diffiniedig, ac felly rydym yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gydag XPS er mwyn iddynt ddarparu'r gwasanaethau hyn. Mae Gwybodaeth XPS ar Breifatrwydd ar gael yn:

**www.xpsgroup.com/legal-regulatory/privacy-policy**

Mae'r hysbysiad perthnasol i chi wedi ei labelu "Combined Scheme Actuary and actuarial consulting to pension schemes". Gall XPS wneud newidiadau o bryd i'w gilydd ac felly dylech edrych ar fersiwn ddiweddaraf y wybodaeth hon am breifatrwydd yn achlysurol.

Rydym yn ystyried eich preifatrwydd yn fater pwysig iawn ac rydym yn gofyn i chi ddarllen Gwybodaeth XPS ar Breifatrwydd yn ofalus gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth bwysig ar:

- **Y wybodaeth bersonol rydym yn ei rhannu ag XPS mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir;**
- **Beth mae XPS yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth;**
- **Gyda phwy y gall XPS rannu eich gwybodaeth; a**
- **Pha hawliau sydd gennych o ran XPS yn cadw eich gwybodaeth.**

Gall Actiwari'r Cynllun newid. Os ydych eisiau gwybod pwy yw Actiwari presennol y Cynllun, yna ewch at gyfrifon mwyaf diweddar y cynllun, neu cysylltwch â'r Ymddiriedolwyr.

## Pa hawliau sydd gennyf?

Mae gennych hawl eisoes i weld eich cofnodion cynllun pensiwn eich hun (gelwir hyn yn Gais Mynediad Gwrthrych) a gellwch ofyn i ni gywiro unrhyw wallau yn y data sydd gennym amdanoch ond, yn ogystal, bydd gennych hawl (dan rai amgylchiadau cyfyngedig i gael eich anghofio neu gael dileu eich gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, cyn belled ag y mae'r cynllun pensiwn yn y cwestiwn, heb eich gwybodaeth bersonol ni fydd y gweinyddwr yn gallu cyfrifo eich buddion.

Yn achos cynlluniau pensiwn mae yna resymau cyfreithiol a dilys pam y cedwir eich data a'i ddefnyddio i'r holl ddibenion sy'n gysylltiedig â rheoli cynllun pensiwn. Os gofynnir i chi roi caniatâd (i gytuno y gall sefydliad arall gael mynediad at eich data, neu i ni ddefnyddio gwybodaeth arbennig o sensitif, megis gwybodaeth am eich iechyd yna mae gennych hawl i dynnu'r caniatâd hwnnw'n ôl ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, os nad oes gennym yr holl ddata rydym ei angen i weinyddu eich buddion, efallai na fyddwn yn gallu talu'r buddion y mae gennych hawl iddynt.

Os ydych yn anhapus â'r ffordd y defnyddiwyd eich data, gellwch wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Dyma'r cyfeiriad:

**Information Commissioner's Office**
**Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF**

**Ffôn: 0303 123 1113 (cyfradd leol) neu 01625 545 745 (os yw'n well gennych ddefnyddio rhif cyfradd genedlaethol)**

## Pa newidiadau y byddaf yn eu gweld?

Fel y gwnaethom egluro ar ddechrau'r hysbysiad hwn, mae'r Ymddiriedolwyr, Prifysgol Bangor a'n cynghorwyr wedi bod yn cydymffurfio â'r Deddfau Gwarchod Data er 1998 ac felly ni welwch ond newidiadau bychain iawn i'r geiriad ar lythyrau a gwybodaeth a anfonir atoch ar adegau fel ymddeol neu adael y Cynllun.

Yn y dyfodol, pan fydd unrhyw newidiadau o bwys i'r cynllun pensiwn (neu brojectau) lle bydd angen i ni ddefnyddio eich data personol, byddwn yn egluro'n fanylach pam mae eich data'n cael ei ddefnyddio a ph'un a oes angen i chi gydsynio i'ch data gael ei ddefnyddio at y diben penodol hwnnw.

---

**Nid effeithir ar eich buddion ac nid oes angen i chi wneud unrhyw beth o ganlyniad i dderbyn yr hysbysiad hwn. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag Ysgrifennydd yr Ymddiriedolwyr drwy'r manylion cyswllt isod:**

**Mr Robin Glyn**
**Ysgrifennydd i'r Ymddiriedolwyr**

Cyfeiriad:
**Cae Derwen, Ffordd y Coleg,**
**Bangor, Gwynedd LL57 2DG**

E-bost: **pensions@bangor.ac.uk**

**CYNLLUN PENSIWN AC YSWIRIANT**
PRIFYSGOL BANGOR
**CPYPB**

**Cyhoeddwyd gan Ymddiriedolwyr y Cynllun**
Awst 2021